

# **Datblygu Ysgol Teithio Llesol**



## **Stori Ysgol Hamadryad**

# Rhagair

Rwy'n hynod ddiolchgar i Dr Dafydd Trystan, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Hamadryad, am ysgrifennu'r adroddiad ysbrydoledig hwn o sut y gall ysgol chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â rhai o'n problemau mwyaf heriol. Mae'r daith i'r ysgol mewn car yn cyfrannu at newid hinsawdd, gordewdra ymysg plant, tagfeydd traffig ac ansawdd aer gwael, i enwi ond pedwar; Bydd dull radical Ysgol Hamadryad yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r rhain. Rwy'n falch iawn o allu cyhoeddi stori'r ysgol fel cymorth i eraill sydd am gychwyn ar y siwrnai hon. Mae pob ysgol yn wahanol ac efallai y bydd yr hyn sy'n bosibl mewn un yn anoddach mewn ysgol arall, ond rwy'n siŵr y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i bob ysgol sy'n gweld y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol fel ffactor allweddol yn eu hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.

## **Huw Irranca-Davies AC**

Aelod Cynulliad dros Ogmored

Cadeirydd o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol



# Datblygu Ysgol Teithio Llesol

## Cyflwyniad

Yn 2016, cyfarfu llywodraethwyr Ysgol Hamadryad â'r uwch staff a phenderfynwyd y byddai adeilad newydd Ysgol yr 21ain Ganrif – a fyddai'n gartref parhaol i ni – yn Ysgol Teithio Llesol. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r weledigaeth wedi'i gwireddu – gyda llawer o lwyddiannau a methiannau ar hyd y ffordd. Ein gobaith yw y bydd ein profiad ni'n rhoi syniadau ac ysbrydoliaeth i eraill, ynghyd â rhai awgrymiadau ynglŷn â'r rhwystrau y dylid eu hosgoi!

Caiff y ddogfen hon, a gyhoeddwyd ar ôl cynnal trafodaethau amrywiol gyda'r Grŵp Teithio Llesol Trawsbleidiol yn y Senedd, ei chyflwyno mewn dwy ran. Astudiaeth achos o Ysgol Hamadryad a'r camau a gymerwyd i greu ysgol teithio llesol gyntaf Cymru yw'r rhan gyntaf. Mae'r ail ran yn cynnwys nifer o awgrymiadau ymarferol, ar ffurf cynllun chwe phwynt, yn ymwneud â sut gall ysgolion gychwyn ar eu taith tuag at fod yn ysgol teithio llesol.



## Rhan Un

# Taith Teithio Llesol Ysgol Hamadryad Ysgol Teithio Llesol Gyntaf Cymru...wedi'i chynllunio

## Cyflwyniad

Datblygwyd y rhan hon ar sail cyflwyniad a roddwyd gerbron y Grŵp Teithio Llesol Trawsbleidiol yn y Senedd ym mis Chwefror 2019. Mae neges ein profiad yn glir: gyda'r cyfuniad iawn o weledigaeth a gwaith caled, fe all ac fe ddylai pob ysgol ddod yn ysgol teithio llesol.

Ymatebodd Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru, i'r cyflwyniad trwy ganmol yr 'arweiniad eithriadol' yn Ysgol Hamadryad. Ni fyddai'r 'daith' hon wedi bod yn bosibl heb arweiniad y Pennaeth (a'r staff), gweledigaeth y Corff Llywodraethu a chefnogaeth frwd y rhieni a'r disgyblion.



## Sefydlu Ysgol Hamadryad

Yn ystod y degawdau diwethaf gwelwyd twf sylweddol mewn addysg Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Gan fod Ysgol Treganna (Treganna) ac Ysgol Pwll Coch (Lecwydd) yn llawn dop, tua deng mlynedd yn ôl dechreuodd rhieni yn ardaloedd Grangetown a Butetown yng Nghaerdydd ymgyrchu'n frwd am ysgol Gymraeg newydd. Er bod yna alw clir am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, roedd tir a oedd yn eiddo i'r Cyngor yn brin – hynny yw, tir y gellid adeiladu Ysgol Gynradd (ar gyfer 468 o ddisgyblion) arno. Roedd rhai o'r safleoedd a gafodd eu hystyried fel lleoliadau posibl naill ai'n ddadleuol (e.e. ger Canolfan Hamdden Channel View yn Grangetown) neu'n anghyfleus ar gyfer mwyafrif y rhieni posibl (e.e. tir i'r Gogledd o Neuadd y Sir<sup>1</sup>).

Yn olaf, ar ôl cryn ymgyrchu gan Ymgyrch TAG – sef grŵp lleol a gafodd ei ffurfio er mwyn ymgyrchu dros gael ysgol cyfrwng Cymraeg newydd – cafodd safle addas ei ganfod ar gyfer Ysgol Hamadryad (wrth ymyl Ysbyty

---

<sup>1</sup> Yn y diwedd cafodd y Cyngor wared â'r tir hwn trwy ei gyfnewid am ddarn arall o dir gyda datblygwyr. Defnyddiwyd y tir hwnnw fel safle ar gyfer Ysgol Hamadryad.



Hamadryad, yn un pen i Barc Hamadryad). Efallai fod 'addas' yn ei gor-ddweud hi braidd – roedd y safle'n gymharol fach ar gyfer ysgol dau ddsbarth mynediad, byddai'n rhaid i'r adeilad gymryd rhywfaint o dir parc, ac roedd problemau traffig sylweddol i'w cael eisoes yn yr ardal o amgylch yr ysgol, gyda nifer o breswylwyr yn cwyno am orddatblygu a chymudwyr yn defnyddio strydoedd preswyl i barcio. (Roedd bloc o fflatiau wedi cael ei adeiladu ym mhen Gogleddol Parc Hamadryad, er i breswylwyr lleol ymgyrchu'n frwd yn erbyn gorddatblygu).

Roedd Ysgol Hamadryad yn rhan o gais llwyddiannus Cyngor Caerdydd am gyllid Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2016. Gan gychwyn mewn cabanau cludadwy ar iard Ysgol Parc Ninian, dechreuodd 17 o ddisgyblion yn Ysgol Hamadryad yn 2016.

Er gwaethaf yr addewid am adeilad ysgol newydd a'r bwriad cychwynnol i leoli'r ysgol ym Mharc Ninian am 12 mis yn unig, nid oedd safle Hamadryad wedi cael caniatâd cynllunio manwl eto. Roedd yna bryderon sylweddol yn yr ardal ynghylch effaith yr ysgol ar draffig ychwanegol ac ati, ac roedd rhai o gynghorwyr Caerdydd yn rhannu'r pryderon hyn.

Yn y cyfamser, roedd Corff Llywodraethu Ysgol Hamadryad wedi cael ei sefydlu ac roedd gwaith wedi dechrau i ddatblygu polisiau'r ysgol. Y consensws clir ymhlith y Llywodraethwyr oedd y dylai teithio llesol fod yn rhan allweddol o bolisi trafndiaeth gynaliadwy'r ysgol.

---

*Y consensws clir ymhlith y Llywodraethwyr oedd y dylai teithio llesol fod yn rhan allweddol o bolisi trafndiaeth gynaliadwy'r ysgol.*

---

Bu'r Corff Llywodraethu yn ffodus o allu elwa ar brofiad ac arbenigedd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Dr Dafydd Trystan a'r Llywodraethwr Awdurdod Lleol Rachel Maycock. Roedd Trystan yn un o sefydlwyr Bwrdd Sustrans Cymru (elusen yw Sustrans sydd â'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio), a bu'n gwasanaethu fel aelod o'r bwrdd am ddegawd – mae hefyd yn Cadeirio cwmni Hyfforddiant Beicio. Roedd Maycock yn Gyfarwyddwr Strydoedd Byw yng Nghymru a bu'n aelod o Fwrdd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Elusen yw Strydoedd Byw sy'n anelu at wneud cerdded yn 'ddewis naturiol' ac mae'n hyrwyddo teithiau llesol, fel cerdded i'r ysgol.

Arweiniodd trafodaethau cychwynnol rhwng y Llywodraethwyr a'r Pennaeth at gytuno ar bolisi drafft, a oedd yn golygu y dylai'r HOLL blant deithio i'r ysgol mewn modd llesol.

Wrth i'r Llywodraethwyr a'r staff lunio cynlluniau teithio llesol, aeth Cyngor Caerdydd ati i ystyried y broses gynllunio. Roedd y Pwyllgor Cynllunio i fod i wneud penderfyniad ym mis Mawrth 2017, ond yn sgil etholiadau llywodraeth leol bu'n rhaid gohirio'r broses gynllunio oherwydd bod gan breswylwyr lleol



broblemau heb eu datrys yn ymwneud â thrafnidiaeth. Arweiniodd yr oedi at siomedigaeth yn yr ysgol, yn enwedig gan fod Hamadryad yn un o blith tair o ysgolion a oedd yn rhan o raglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda phob un i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Medi 2017 yn wreiddiol.

Ar ôl yr etholiad lleol ym mis Mai 2017, roedd y Llywodraethwyr o'r farn fod angen mynd ati'n ddi-oed i ryngweithio â'r cynghorwyr newydd-etholedig a'r preswylwyr ynglŷn â'r broses gynllunio a'r trefniadau trafndiaeth yn ôl a blaen i'r ysgol. Rachel Maycock a fu'n arwain y gwaith o gydgyssylltu â chynghorwyr lleol – yn enwedig y Cynghorydd Ebrahim, ar ôl iddo gael ei ethol i Ward Butetown, a'r Cynghorydd

Lister, a oedd newydd ei ethol i Ward Grangetown. Gyda Mair Parry Jones (Dirprwy Gadeirydd y Llywodraethwyr), cynhaliodd Dafydd Trystan gyfarfod cyhoeddus gyda phreswylwyr lleol mewn neuadd ar un o'r strydoedd ger safle arfaethedig yr ysgol. Bu'n gyfarfod anodd ond gwerth

---

*Roedd y preswylwyr yn ofni y byddai yna gynnydd mewn traffig ynghyd â threfniadau gwael gan Gyngor Caerdydd ar gyfer rheoli traffig, ac y byddent yn cael eu hanwybyddu wrth i'r ysgol ddatblygu a thyfu.*

---

chweil, a chafwyd cyfle i rannu barn ac ateb cwestiynau. Roedd y preswylwyr yn ofni y byddai yna gynnydd mewn traffig ynghyd â threfniadau gwael gan Gyngor Caerdydd ar gyfer rheoli traffig, ac y byddent yn cael eu hanwybyddu wrth i'r ysgol ddatblygu a thyfu. Ymgysylltodd y rhan fwyaf o'r preswylwyr â'r datblygiadau; ac er bod rhai'n amheus (iawn) y gellid perswadio rhieni i fentro allan o'u ceir, pwysleisiodd y cyfarfod a'r ohebiaeth ddilynol fod yr ysgol yn awyddus i fod yn rhagweithiol, i wrando ar breswylwyr lleol ac i ymgysylltu â nhw. Ar brydiau yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddai'r gohebu'n digwydd o leiaf unwaith yr wythnos – weithiau'n amlach! Yr her i rai preswylwyr lleol oedd y ffaith eu bod wedi gweld sawl enghraifft o broblemau traffig wrth ymyl ysgolion lleol. Yr unig beth a oedd gennym ni oedd ein gweledigaeth yn ein polisïau drafft a diffuantrwydd ein hymrwymiad i deithio llesol. Roedd rhai o'r preswylwyr yn fwy ffyddiog nag eraill y byddem yn llwyddo.

---

*Yr elfen gyntaf a synnodd yr ysgol oedd diffyg unrhyw arweiniad ar Deithio Llesol ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif.*

---

Wrth i'r ysgol ddechrau mynd ati i gynllunio polisïau a gwaith ymgysylltu, roedd cynlluniau manwl yn cael eu llunio gan gontractwyr y Cyngor, Morgan Sindall. Yr elfen gyntaf a synnodd yr ysgol oedd diffyg unrhyw

arweiniad ar Deithio Llesol ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Er gwaethaf deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar deithio llesol, nid oedd unrhyw gymhellant na disgwyliad i Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w hyrwyddo; yn hytrach,





y dybiaeth oedd y byddai dulliau trafndiaeth yr 20fed Ganrif yn cael eu defnyddio<sup>2</sup>.

Yn ystod y broses, tynnwyd sylw sawl gwaith at y diffyg ffocws hwn ar gynaliadwyedd, ac mae dwy enghraifft benodol yn arwydd o brinder canllawiau. Yn gyntaf, cyflwynwyd cynlluniau cychwynnol yr ysgol i'r Corff Llywodraethu. Roedd y cynlluniau'n drawiadol iawn, ond gofynnwyd pam yr oedd cymaint o fannau parcio i'w cael ar gyfer ceir, a dim manau parcio ar gyfer beiciau / sgwteri. Yr ateb a gafwyd oedd mai 'cynlluniau cysyniadol' oedd y rhain ac y byddai'r manylion yn cael eu hychwanegu'n ddiweddarach. Roeddem o'r farn fod hyn yn eglurhaol – roedd y cynlluniau cysyniadol yn cynnwys ceir, ond nid oeddynt yn cynnwys manau ar gyfer beiciau a sgwteri, nac ychwaith lwybrau cerdded dynodedig. Yn ail, ar ôl cychwyn trafod manau parcio ar gyfer

beiciau / sgwteri, cawsom wybod y byddai yna le ar gyfer parcio 40 o feiciau/sgwteri yn yr ysgol. Unwaith eto, gofynnodd y Llywodraethwyr pam oedd y nifer mor fach – a dywedwyd bod yr ysgol yn cael ei

---

*Siomedig oedd deall bod darparu 40 o fannau parcio ar gyfer beiciau a sgwteri'n cael ei ystyried yn 'rhagorol' ar gyfer ysgol i 468 o ddisgyblion.*

---

hadeiladu'n ôl safon cynaliadwyedd rhagorol BREAAAM, ac mai dyna oedd y nifer gofynnol. Siomedig oedd deall bod darparu 40 o fannau parcio ar gyfer beiciau a sgwteri'n cael ei ystyried yn 'rhagorol' ar gyfer ysgol i 468 o ddisgyblion. Roedd gennym uchelgeisiau uwch o lawer ar gyfer nifer y plant a fyddai'n teithio i'r ysgol mewn modd llesol. Yn y pen draw, newidiwyd y cynlluniau i gwrdd â'n huchelgeisiau, ond dim ond ar ôl ymateb cryf a manwl gan y Llywodraethwyr gyda chefnogaeth lwyr y Pennaeth.

Felly, erbyn diwedd mis Mai 2017, roedd y Corff Llywodraethu wedi cytuno ar weledigaeth, roedd gwaith cynllunio sylweddol wedi'i wneud ar safle'r ysgol, ac roedd y gwaith ymgysylltu cychwynnol gyda'r preswylwyr lleol wedi cychwyn.

Ymhellach, fel rhan o'r broses gynllunio, roedd gwaith wedi dechrau i nodi problemau gyda'r seilwaith teithio llesol o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, trwy gyfrwng cyswllt rheolaidd â chynghorwyr a swyddogion, fe wnaethom ddarganfod nad oedd gwahanol rannau o Gyngor Caerdydd bob amser yn gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol ag y gallent. Cyhoeddwyd cynlluniau i wella diogelwch cyffordd benodol, ailwampio rhai cyffyrdd ymhellach i ffwrdd a chyflwyno mwy o fannau parcio i breswylwyr yn ardal yr ysgol. Ar y cychwyn, nid oedd yr ysgol yn ymwybodol o'r cynlluniau a oedd yn cael eu datblygu, a'r tro cyntaf i Reolwr y Prosiect yn y Cyngor a'r Corff Llywodraethu glywed am y cynlluniau oedd pan welodd un o'r llywodraethwyr yr hysbysiadau cynllunio

---

<sup>2</sup> Deallwn fod rhaglen Band B ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei haddasu i gynnwys peth arweiniad ar Deithio Llesol, ond byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ein hadran fyfyrto tua diwedd y rhan hon o'r ddogfen.



statudol wrth deithio ar ei beic – roedd yr hysbysiadau hyn yn nodi bod yr ymgynghoriad yn dod i ben ymhen wythnos! Fe fyddai'r cynlluniau a'r gwaith uwchraddio ar gyfer y cyffyrdd hyn yn hollbwysig i bobl a fyddai'n cerdded i'r ysgol neu'n teithio iddi ar feic neu sgwter, ac roedd yr ysgol eisiau cyfrannu syniadau ar gyfer gwelliannau. Er bod yr ysgol a'r rhieni'n rhanddeiliaid allweddol, ni sylweddolwyd y dylent fod wedi cael gwybod am y cynlluniau a chael cyfle i gymryd rhan yn rhagweithiol yn yr ymgynghoriad. Cytunodd y Cyngor i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau – a bu modd i'r ysgol gyflwyno sylwadau helaeth yn seiliedig ar gynlluniau teithio llesol rhieni a disgyblion unigol.

Ar y cychwyn, cafodd y rhan fwyaf o bryderon y rhieni eu diystyru gan y Cyngor, ond ar ôl cydgysylltu gyda Chynghorwyr lleol aethpwyd ati i ymdrin â rhai o'r materion hyn.<sup>3</sup>

Un o'r agweddau allweddol o ran newid moddol llwyddiannus yw pan fydd gan unigolion gynllun a dealltwriaeth glir o'u taith teithio llesol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant, lle mae diogelwch o'r pwys mwyaf. Dan arweiniad Rachel Maycock, a chyda chefnogaeth gan staff yr ysgol, cafodd pob rhiant ei gynnwys yn

gynnar yn y broses – a gosodwyd tasg hanner tymor ar eu cyfer i deithio mewn modd 'llesol' i safle'r ysgol newydd. Chwe mis cyn i'r ysgol agor, gofynnwyd i'r rhieni gyflwyno disgrifiad o'u taith teithio llesol i safle'r ysgol newydd, ynghyd ag unrhyw heriau neu

---

*Nodwyd yn glir yn gynnar yn y broses na fyddai teithio llesol yn cael ei ystyried fel rhyw fath o eithriad ond, yn hytrach, mai dyna fyddai'r patrwm arferol ar gyfer pob taith.*

---

anawsterau penodol y daethant ar eu traws ar y ffordd. Nodwyd yn glir yn gynnar yn y broses na fyddai teithio llesol yn cael ei ystyried fel rhyw fath o eithriad ond, yn hytrach, mai dyna fyddai'r patrwm arferol ar gyfer pob taith.

Bu'r ymarfer hwn yn werthfawr dros ben. Llwyddodd i osod disgwyliad clir mewn perthynas â theithio llesol ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn ogystal â chyfathrebu ein bwriad fel ysgol i gefnogi dewisiadau teithio llesol disgyblion a nodi problemau / heriau ar hyd y ffordd. Ategwyd y wybodaeth hon gan rieni / disgyblion gyda dadansoddiad map gwres – lle cafodd cartrefi'r holl ddisgyblion yn Grangetown a Butetown eu mapio – a llwybrau / coridorau teithio llesol eu hystyried ar gyfer pob ardal.

---

<sup>3</sup> Ers cwblhau'r project yn Ysgol Hamadryad, mae Cyngor Caerdydd wedi cynyddu adnoddau yn y tîm Trafnidiaeth sy'n gweithio gydag ysgolion. Mae hyn yn cynnwys swyddogion penodol sy'n gweithio gyda'r adran Addysg i nodi seilwaith a chyfleusterau teithio llesol, mewn ysgolion ac o'u hamgylch. Ar ben hynny mae swyddogion Teithio Llesol Ysgolion ar gael i gefnogi newid ymddygiad a chynyddu teithio llesol ar gyfer y daith i'r ysgol.





Er mwyn cynorthwyo rhieni a disgyblion i fagu hyder i ddewis teithio llesol, buom yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ddarparu hyfforddiant sgwtio a beicio rhad ac am ddim i'r plant – rhai pedair a phum mlwydd oed. Pleser o'r mwyaf oedd eu gweld yn ymateb â'r fath hyder i'r hyfforddiant hwn, a bu'n drobwynt i nifer o rieni amheus!

Erbyn canol 2017 roedd ein paratodau ar gyfer teithio llesol yn mynd yn eu blaen yn dda – ond roedd yr ysgol dal heb gael caniatâd cynllunio. Yn y diwedd, aeth y Pwyllgor Cynllunio ati i ystyried yr ysgol ym mis Mehefin 2017. Rhoddwyd amodau llym ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio – yn cynnwys llawer o fannau parcio ar gyfer beiciau / sgwteri a chyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy i'r Cyngor. Croesawodd yr ysgol yr amodau hyn, ac aeth ati i fireinio mwy o'r cynllun trafniadaeth gynaliadwy er mwyn adlewyrchu ein dealltwriaeth gynyddol o ddewisiadau rhieni / disgyblion.

Fel rhan o'n proses ar gyfer cynllunio teithio llesol, roeddem wedi canfod nifer o rieni a oedd yn bwriadu cerdded / sgwtio / beicio i'r ysgol bob diwrnod; ond roedd yna leiafrif sylweddol o'r farn y byddai elfennau ymarferol y dewisiadau hyn yn anodd iddynt. Er enghraifft, roedd gan rai rhieni fwy nag un plentyn i'w danfon i'r feithrinfa neu'r ysgol bob bore; ac oherwydd patrymau gweithio rhieni eraill, ni fyddai treulio hanner awr yn cerdded i'r ysgol bob bore yn ymarferol.

Roeddem eisiau gwneud teithio llesol yn ddewis i bawb. Felly, penderfynasom gyflwyno 'bws cerdded' i ymdrin â'r angen hwn. Bu'r Pennaeth yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i ddod o hyd i leoliadau addas – gyda digon o fannau parcio a llwybr diogel i gerdded i'r ysgol ar gyfer plant 4 oed a hŷn. Daethpwyd o hyd i ddau leoliad posibl – Canolfan Hamdden Channel View yn Grangetown a Maes Parcio Stryd Havannah yn Butetown. Cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am y cyfleusterau hyn.



Unwaith eto, gwelwyd diffyg cyswllt rhwng gwahanol rannau o'r Cyngor. Roedd swyddogion a Chynghorwyr yn gefnogol i nodau'r ysgol, ond byddai swyddogion mewn adrannau eraill yn rhwystro'r cynlluniau. Yn y lleoliad cyntaf, cafwyd gwrthwynebiad sylweddol ac ymateb negyddol i'r cynnig, gan fod y maes parcio'n 'rhy brysur' ar yr adegau dan sylw i rieni barcio ynddo a cherdded gyda'u plant i'r ysgol. Yn dilyn yr ymateb hwn, gofynnwyd am gael



arolwg traffig ffurfiol (ar ôl i'r llywodraethwyr gynnal arolwg traffig anffurfiol yn yr ardal!). Dangosodd yr arolwg fod yna ddigon o le i rieni barcio a chymryd rhan yn y bws cerdded. Fodd bynnag, mewn trafodaethau cyfochrog, cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan yr ail leoliad, felly cafodd y lleoliad cyntaf ei ddiystyru.

Ni allai'r ail leoliad fod wedi bod yn fwy cymwynasgar na chefnogol i'r syniad, nid yn unig o ran gweithio'n rhagweithiol gyda'r ysgol ond hefyd trwy fynd ati i greu 'cardiau gollwng' arbennig gyda logo'r ysgol arnynt, er mwyn i rieni allu gollwng eu plant heb ofni cael tocyn parcio. Cafodd y bws cerdded ei gynllunio a'i roi ar waith ym maes parcio Stryd Havannah, ac mae wedi cael ei gynnal bob diwrnod ers i'r ysgol agor ar ei safle newydd ym mis Ionawr 2019. Adeg sefydlu'r ysgol newydd cafodd y rhieni wybod am y bws cerdded a sut i drefnu cerdyn gollwng, ac mae llawer ohonynt wedi dewis ymuno â'r cynllun.

Wrth i 2018 fynd yn ei blaen, ac wrth i'r gwaith o adeiladu'r ysgol dynnu tua'r terfyn, unwaith eto cafodd y rhieni eu hannog i deithio i safle'r ysgol - i weld y gwaith adeiladu a hefyd i ystyried eu cynlluniau teithio llesol. Erbyn hyn, roedd rhai o'r cyffyrdd wedi cael eu haddasu ac roedd rhywfaint o'r gwaith ail-wynebu wedi cael ei gwblhau (e.e. Pont Heol Clarence).

Ymhellach, bu'r Llywodraethwyr yn ystyried nifer o benderfyniadau ymarferol e.e. faint o'r gloch y dylai'r bws cerdded gychwyn? A ddylid ei gysylltu â'r Clwb Brecwast? Sut dylid staffio'r bws cerdded? Penderfynasom mai'r unig ffordd o sicrhau llwyddiant y bws cerdded oedd cael nifer o unigolion cyfrifol yr oedd y plant yn eu hadnabod

a chyflogi'r unigolion hynny i gynorthwyo gyda'r bws cerdded. Felly, fe wnaethom benderfynu cynnig oriau ychwanegol i ddau Gynorthwydd Addysgu i gynorthwyo gyda'r bws cerdded bob bore a phrynhawn, a chael rota ar gyfer gweddill y staff ar gyfer cyflenwi trydydd aelod o dîm y bws cerdded bob bore.

---

*fe wnaethom benderfynu cynnig oriau ychwanegol i ddau Gynorthwydd Addysgu i gynorthwyo gyda'r bws cerdded bob bore a phrynhawn, a chael rota ar gyfer gweddill y staff ar gyfer cyflenwi trydydd aelod o dîm y bws cerdded bob bore.*

---

Mae hyn yn arwain at gost i'r ysgol; ond er mwyn i'r bws cerdded ennyn a chynnal hyder disgyblion a rhieni fel ei gilydd, ein barn ni oedd bod angen iddo fod yn ddibynadwy ac yn ddiogel. Ein nod oedd gwneud ein bws cerdded yn fwy dibynadwy na thrafnidiaeth gyhoeddus ac yn ddewis gwell na defnyddio mannau parcio preswylwyr yng nghyffiniau'r ysgol.

Ym mis Tachwedd 2018 aethom ati unwaith eto i ohebu â'r rhieni i'w hatgoffa na fyddai gyrru i safle'r ysgol a pharcio ym mannau parcio'r preswylwyr yn cael ei ganiatáu, ac y byddai'r rhai a fyddai'n gwneud hynny'n cael dirwy. Cawsom un ymholiad ynglŷn ag union statws y priffyrdd cyhoeddus, ond llwyddodd esboniad llawn o'r cyfyngiadau aros a pharcio i atgyfnerthu'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal yr ysgol. Roeddem mewn cysylltiad â



swyddogion gorfodi parcio yn y Cyngor, a oedd yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r preswylwyr lleol o ran gorfodi.

Mae'r ardal sy'n union o amgylch yr ysgol yn hollbwysig i lwyddiant ein polisi – mewn dwy ffordd ryng-gysylltiedig. Yn gyntaf, rhaid i'r rhieni a'u plant deimlo bod y ffyrdd yn ddiogel ar gyfer cerdded / beicio / sgwtio i'r ysgol. Yn ail, rhaid cyfyngu cyn belled ag y bo modd ar y cyfle i barcio a gollwng plant – gan leihau traffig a gwella diogelwch y ffyrdd. O ran y cyfyngiadau, ceir parth diogelwch ysgol y tu allan i'r ysgol lle na chaniateir aros, ac mae mwyafrif llethol y ffyrdd wrth ymyl yr ysgol naill ai â llinellau melyn dwbl neu'n fannau parcio ar gyfer preswylwyr yn unig. Felly, caiff y 'gost' a'r anhwylustod o yrru i'r ysgol eu cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi gweithio gyda'r Cyngor a'r preswylwyr i sicrhau dulliau effeithiol o reoli traffig a gorfodi parcio yn yr ardal (h.y. dim posibilrwydd ymarferol i rieni nac ymwelwyr barcio yng nghyffiniau'r ysgol).

## Rhoi'r Theori ar Waith

Ar ôl dwy flynedd a mwy o gynllunio, agorodd yr ysgol o'r diwedd ym mis Ionawr 2019. Ar y diwrnod cyntaf, denodd y bus cerdded 15 o ddisgyblion. O blith cyfanswm o fwy na 100 o blant, mae rhyw 20 o ddisgyblion yn defnyddio'r bus yn rheolaidd.

Mynegodd y disgyblion beth siomedigaeth ar y diwrnod cyntaf .... 'Ble mae'r bus?' ... 'Chi yw'r bus ...'. Ond buan y daeth hyn i ben, a bob diwrnod ers hynny mae'r bus wedi rhedeg, waeth beth fo'r tywydd. Mae cerdded i'r ysgol yn brofiad llawn hwyl a dysgu i'r plant – cânt gyfle i gymdeithasu gyda'u cyfeillion neu dreulio amser ychwanegol gyda'u rhieni, yn ogystal â dysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd.



Cafodd y profiadau hyn eu rhannu pan ymwelodd y disgyblion â'r Senedd i siarad am eu taith, yn cynnwys y pleser a gânt o gael siarad gyda'u cyfeillion a dysgu am natur ar y ffordd.

Mae nifer fawr o rieni'n cerdded, yn beicio ac yn sgwtio i'r ysgol gyda'u plant, ac yn ystod y mis cyntaf ni welwyd yr un rhiant yn gyrru i'r ysgol. Roedd llwyddiant y cynllun teithio'n amlwg i un preswyllydd lleol amheus, a ymunodd â Chadeirydd y Llywodraethwyr a swyddogion gorfodi parcio'r Cyngor wrth glwydi'r ysgol ar y diwrnod cyntaf. Trodd at Gadeirydd y Llywodraethwyr a gofyn 'felly, pryd bydd y plant yn cyrraedd?' a dywedwyd wrtho eu bod eisoes wedi cyrraedd ar droed! Hoffem feddwl fod y camau yr ydym wedi'u cymryd i ddefnyddio cyn lleied ag y bo modd o geir wrth deithio i'r ysgol wedi llwyddo i berswadio'r preswylwyr lleol mwyaf amheus, hyd yn oed.



Mae'r polisi'n dal i fod angen cefnogaeth frwd gan y cyngor lleol, y gymuned leol a'r rhieni, ynghyd â rhywfaint o wyliaidwriaeth. Tua diwedd y tymor cyntaf clywsom fod rhai rhieni'n defnyddio manau parcio'r preswylwyr i barcio a gollwng eu plant yn yr ysgol. Aethom ati i gysylltu â'r cyngor, a daeth swyddogion gorfodi yno yr un wythnos. Daeth y swyddogion o hyd i dri char a oedd wedi parcio'n anghyfreithlon, a chawsant ddirwy. Credwn fod o leiaf un o'r ceir yn eiddo i riant, ac felly aethom ati i ohebu â'r holl rieni i'w hatgoffa o bolisi trafndiaeth gynaliadwy'r ysgol a beth fyddai'r canlyniad pe na baent yn cydymffurfio. Ymhellach, mae parth parcio'r preswylwyr mewn strydoedd cyfagos wedi'i ymestyn yn sylweddol, gyda chefnogaeth frwd yr ysgol.

Cafodd rhieni newydd (ym mis Medi 2019) wybod am y polisi teithio llesol a'u hannog i lunio eu cynllun teithio llesol eu hunain, ac wrth i'r ysgol ymestyn (mwy na 150 o ddisgyblion erbyn mis Medi 2019), mae'r ymrwymiad i deithio llesol yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n prospectws.

Yn ystod 2019-20 bydd yr ysgol yn cymryd camau pellach i annog mwy ar athrawon a staff eraill yr ysgol i deithio i'r safle mewn modd llesol, ac yn gweithio gyda gyrwyr danfon nwyddau a chontractwyr eraill a ddaw ar y safle er mwyn lleihau traffig yr ysgol ymhellach. Hefyd, mae'r ysgol yn mynd ati i adolygu darpariaeth y bws cerdded er mwyn sicrhau bod y gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol – clybiau brechwast, darpariaeth cyn ysgol, darpariaeth meithrinfa, gweithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol – yn cael eu cynnwys yn y 'daith teithio llesol'.

## Casgliad

Yn nyddiau cynnar y gwaith o gynllunio cartref parhaol i Ysgol Hamadryad, i rai roedd y weledigaeth o gael ysgol teithio llesol yn afrealistig. Trwy ddatblygu cyfres o fesurau a gweithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd, preswylwyr lleol a'r awdurdod lleol, mae'r weledigaeth wreiddiol hynod feiddgar honno bellach yn rhan arferol o ddiwrnod ac ethos yr ysgol. I fwyafrif y plant, mae'r daith teithio llesol yn rhan o'u trefn feunyddiol wrth deithio i'r ysgol.

## Rhan Dau

### 1. Mapio'r Dirwedd

Y dasg gyntaf sy'n wynebu llywodraethwyr, staff neu rieni yw cael darlun clir o'r sefyllfa bresennol h.y. mapio'r dirwedd. Sut le yw safle'r ysgol? Pa mor hawdd yw mynd yno ar droed, ar feic, ar sgwter neu ar drafndiaeth gyhoeddus? Beth yw'r patrymau cyfredol o ran y ffordd mae disgyblion yn teithio i'r ysgol? A oes llwybrau mwy diogel, ac arbennig o dda, i'w cael i'r ysgol? Neu a oes problemau penodol o ran mynd yno ar feic neu ar droed? Sut gyfleusterau sydd i'w cael yn yr ysgol ar gyfer storio beiciau? Pa mor bell mae'r disgyblion yn ei deithio i'r ysgol fel arfer? Yn ystod y cam hwn, mae'n





ddefnyddiol hefyd nodi a oes swyddogion neu gynghorwyr i'w cael yn yr awdurdod lleol a allai gynnig help / cymorth.

Awgrym: Nid oes yn rhaid i'r 'map' hwn fod yn fanwl iawn – ond rhaid i chi ddeall y dirwedd bosibl ar gyfer teithio llesol.

## 2. Diffinio'r Weledigaeth

Y cam nesaf yw troi at ddiffinio gweledigaeth teithio llesol ar gyfer yr ysgol. Dylai'r 'map', ynghyd â chasgliadau cychwynnol yr ymchwiliadau a wnaed i'r posibilrwydd o deithio llesol, lywio'r weledigaeth hon. Rhaid i'r weledigaeth fod yn feiddgar – fe fydd cyfran helaeth o'r disgyblion a'r rhieni'n gefnogol – ac felly, dyma gyfle delfrydol i bennu gweledigaeth feiddgar ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r weledigaeth adlewyrchu sefyllfa arbennig yr ysgol. Efallai y bydd modd i Ysgol A rwystro'r holl rieni rhag gyrru i'r ysgol; ond i Ysgol B, efallai y bydd cynyddu nifer y rhai sy'n beicio i'r ysgol o 10% i 30% yn weledigaeth feiddgar, ond realistig. Rhaid i'r Llywodraethwyr a'r Uwch Staff gytuno ar y weledigaeth.

Awgrym: Gwrandewch yn ofalus iawn ar yr adborth a geir yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr – yn ôl pob tebyg, bydd rhai o'r pryderon ymarferol yn adlewyrchu pryderon y rhieni maes o law.

## 3. Cynllunio'r Teithiau Teithio Llesol

Mae'r cam nesaf yn hollbwysig – cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a disgyblion. Y nod yw cael sgwrs agored gyda rhieni am eu taith teithio llesol bosibl i'r ysgol. Y ffordd orau o wneud hyn yw gofyn i'r holl rieni / disgyblion roi cynnig ar daith teithio llesol i'r ysgol. Yna, gall y rhieni roi adborth i'r Llywodraethwyr (mae arolwg – ar bapur neu ar-lein – yn ffordd dda o wneud hyn). Mae'r adborth yn hollbwysig o ran nodi rhwystrau i deithio llesol – efallai fod yna ddiffyg cyfleusterau yn yr ysgol, efallai fod cyffyrdd peryglus i'w cael gerllaw, neu efallai nad yw'r disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth feicio.

Awgrym: Gorau po fwyaf o adborth yn ystod y cam hwn – er mwyn creu cynllun a fydd yn gweithio ac yn ennyn cefnogaeth, rydych angen cymaint o gyfraniadau gwahanol â phosibl.

## 4. Creu Cynllun Teithio Llesol

Mae'r cam nesaf yn adeiladu ar y gwaith sylweddol y byddwch eisoes wedi'i wneud wrth gynllunio a chasglu tystiolaeth. Gan adeiladu ar eich gweledigaeth (a ddiffiniwyd yng ngham dau), mae'r amser wedi dod i nodi camau penodol i gefnogi teithio llesol i'r ysgol. Efallai y bydd rhai o'r camau hyn dan reolaeth uniongyrchol yr Ysgol / Corff Llywodraethu – efallai y bydd rhai eraill angen cymorth gan yr awdurdod lleol (ac, mewn rhai achosion, newidiadau i'r gyfraith e.e. terfynau cyflymder). Mae amrywiaeth eang o ddewisiadau ar gael, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:



- i) sicrhau bod parthau 20 milltir yr awr i'w cael ar yr holl lwybrau allweddol i'r ysgol;
- ii) gweithio gyda'r cyngor lleol i ailwampio cyffyrdd lleol, er mwyn gwella diogelwch;
- iii) cyflwyno 'parth dan waharddiad' o amgylch clwydi'r ysgol e.e. dim aros o fewn 100 llath;
- iv) ystyried cyflwyno cyfyngiadau parcio yng nghyffiniau'r ysgol, y tu hwnt i'r parth dim aros;
- v) darparu gwersi sgwtio a beicio i'r disgyblion o flwyddyn un ymlaen;
- vi) gwella'r cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau yn yr ysgol;
- vii) cyflwyno bws cerdded;
- viii) rhoi anogaeth / gwobrau ar ryw ffurf i ddisgyblion sy'n beicio / sgwtio / cerdded;
- ix) casglu data ar y nifer sy'n cerdded / beicio;
- x) ystyried ffyrdd o sicrhau y gall teuluoedd tlotach gael gafael ar feic / sgwter.

Nid yw'r rhestr hon yn hollol gynhwysfawr – ac fe fydd gan bob ysgol ei chyfuniad ei hun o fesurau i sicrhau llwyddiant. Fodd bynnag, mae ystyried y gwahanol ddewisiadau, yn ogystal â chyflwyno amrywiaeth o fesurau i gefnogi teithio llesol a chymhell pobl i beidio â defnyddio ceir, yn allweddol i'r llwyddiant yn yr hirdymor.

Awgrym: Byddwch yn barod i weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol. Fe fydd yna rai agweddau y gall yr ysgol ymdrin â nhw – ond fe fydd agweddau eraill angen cymorth (ac adnoddau) gan y cyngor lleol.

## 5. Cyfathrebu'r Cynllun

Ar ôl i'r cynllun gael ei roi ar waith, fe fyddwch angen cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr holl deuluoedd (a'r holl ddarpar deuluoedd) yn yr ysgol yn gwybod am y disgwyliadau o safbwynt teithio llesol. Yma, rhaid i chi fod yn barod i ddychwelyd at y weledigaeth gyffredinol y cytunwyd arni a gweithio gyda rhieni pryderus – neu rieni a all fod yn wrthwynebol – er mwyn sicrhau eu cefnogaeth, neu o leiaf eu cydsyniad. Wyneb yn wyneb a thrwy gyfrwng llythyr / e-bost gan yr ysgol yw'r ffyrdd gorau o wneud hyn. Os ydych wedi cynllunio'n briodol – ac os oes gennych weledigaeth feiddgar a realistig ar waith – rydych yn barod yn awr i gychwyn ar eich taith teithio llesol. Dewiswch ddyddiad ar gyfer cyflwyno'r polisi newydd – gall dechrau'r tymor fod yn amser da – ac yn ystod yr wythnosau cyntaf cofiwch barhau i gadarnhau'r llwyddiannau a herio unrhyw ymddygiad problemus.

Awgrym: Byddwch yn barod am gwynion ar y cychwyn – o gofio y byddwch yn newid patrymau teithio, efallai y bydd teuluoedd yn anfodlon. Ond gall gweithio gyda nhw, a defnyddio cymuned yr ysgol gyfan sy'n gweld manteision y dull, helpu i gadarnhau llwyddiant.





## 6. Adolygu'n Rheolaidd

Mae amgylchiadau'n newid, mae demograffeg yn newid, mae cyfleoedd yn newid. Byddwch yn barod i adolygu eich cynllun teithio llesol yn rheolaidd – gan ystyried yn arbennig sut gall mentrau newydd effeithio ar y cynllun. Efallai fod gan eich ysgol ddarpariaeth meithrinfa hanner diwrnod, clybiau brechwast neu glybiau ar ôl ysgol – rhaid i'r cynllun teithio llesol fod yn ddigon hyblyg i fabwysiadu a chefnogi teithio llesol i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn a thrwy gydol y dydd.

Awgrym: Ceisiwch ystyried yr ystod o ddisgyblion sy'n mynychu eich ysgol, ynghyd â'u hamserlenni, ac ewch ati i greu atebion a fydd yn gweithio i bawb.

